Cyflwyniad i gymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



CYNNWYS

Trosolwg o'r fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 5

Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd 6

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 7

Strwythur y cymhwyster 9

Pam oes gan rai o'r unedau yr un teitlau neu deitlau tebyg? 12

Beth yw uned? 14

Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm - pam hynny? 15

Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt? 16

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn? 19

Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? 22

Beth yw ystyr Asesiad Mewnol? 24

Beth yw ystyr Asesiad Allanol? 25

Beth yw cynnwys y prawf? 25

Faint o gwestiynau sydd yn y prawf? 25

Faint o amser sydd gennyf i gwblhau'r prawf? 26

A allaf gael cymorth ychwanegol yn ystod fy asesiadau? 26

Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau? 27

Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato? 29

Symud ymlaen at ddysgu pellach 32

Sut mae'r cymwysterau newydd hyn yn cefnogi fy nilyniant gyrfa y tu hwnt i Lefel 3? 33

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach 34

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster? 35

Cyllid 35

Sut ydw i'n hoffi dysgu - beth yw fy 'hoff' ddull dysgu? 36

Trosolwg o'r fframwaith

Uchelgais Llywodr Cymru yw datblygu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol medrus, sy'n uchel ei fri fel proffesiwn a gyrfa ddelfrydol, ac yn cael ei gydnabod am y rôl hanfodol mae'r sector yn ei chwarae wrth helpu plant i ddatblygu.

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ymgeiswyr, teuluoedd/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) i ddatblygu cyfres newydd o 19 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 5). Mae'r Consortiwm wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Gallwch ddysgu rhagor am adolygiad Cymwysterau Cymru yma:https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un ai a ydych yn yr ysgol neu'r coleg chweched dosbarth neu'n gweithio, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'u cynllunio i ddiwallu'ch anghenion. Maent ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, ac yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen p'un a ydych yn ystyried mynd i gyflogaeth, yn ceisio datblydu eich gyrfa neu'n gobeithio mynd i'r coleg neu'r brifysgol.

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae'r canllaw hwn i fyfyrwyr yn canolbwyntio ar gymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**. Rhaid i chi fod o leiaf 16 oed i gwblhau'r cymhwyster hwn. Amlygir sut mae'r cymhwyster yn ffitio o fewn y gyfres newydd o gymwysterau ar y fframwaith isod. Er gwybodaeth, gall y teitlau ar gyfer cymwysterau Lefel 4 newid.

Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Rydych chi'n gweithio tuag at ennill cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu sydd eisiau gweithio, yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o rolau a lleoliadau gwahanol. Mae'r cynnwys yn ymdrin â:

- egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol
- iechyd a llesiant
- ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
- diogelu unigolion
- iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth am Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gweler gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru: https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.

Erbyn diwedd eich cymhwyster, byddwch wedi ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol i symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ymgymryd â chyflogaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Mae cynnwys y cymhwyster **Level 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r sefydliadau a'r unigolion canlynol:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Tiwtoriaid, athrawon, aseswyr ac arbenigwyr eraill.

Mae'r cynnwys yn cael ei lywio a'i ddylanwadu gan Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. O gwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn llwyddiannus, byddwch yn dangos eich bod yn hyderus yn yr agweddau allweddol ar wybodaeth sy'n hanfodol er mwyn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gall cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddefnyddio Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio eu rhaglen sefydlu yn y gweithle, ac felly bydd cwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn eich helpu i baratoi at gyflogaeth.

Mae'n debygol y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle yn cydweithio'n agos â chyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal a byddant wedi datblygu rhaglen astudio i sicrhau bod holl ofynion y cymhwyster yn cael eu diwallu'n llawn. Efallai y bydd eich dysgu yn digwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu trwy ymagwedd fwy cyfunol sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein. Fel arall, efallai y cewch eich cefnogi i ddysgu 'yn y gwaith' ac i ymgymryd â rhywfaint o astudiaethau hunangyfeiriedig. Pa bynnag ymagwedd at ddysgu a gymerir, rydym wedi darparu rhai adnoddau cefnogol a fydd yn eich helpu ar hyd y ffordd.

Mae adnoddau'r cymhwyster ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Holwch eich tiwtor/athro/aseswr ynghylch cwblhau eich cymhwyster yn Gymraeg.

P'un a ydych yn yr ysgol, yn y coleg neu yn cael eich cefnogi gan ddarparwr yn y gweithle, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi. Gall nifer o wahanol ffactorau ddylanwadu ar sut rydych yn dysgu, gan gynnwys yr hyn sy'n eich cymell a pha fath o amgylchedd sydd arnoch ei angen. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i ganfod sut y gallant eich cefnogi i ddysgu'n effeithiol - cyfeirir at hyn yn aml fel eich 'hoff' ddull dysgu (gweler tudalen 36 am fwy o wybodaeth am 'hoff' ddulliau dysgu).

Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei ddweud am werth proses sefydlu dda a sut mae hyn yn cysylltu â'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd?

… Mae proses sefydlu dda yn sicrhau bod gweithwyr yn deall pwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r gwerthoedd sy'n sail i waith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cyfnod sefydlu strwythuredig hefyd yn helpu gweithwyr i ymgyfarwyddo a dod yn fwy effeithiol yn eu rôl. Gall gynyddu ymrwymiad gweithwyr a boddhad swydd, ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar leihau niferoedd y staff sy'n gadael….

… Mae Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (fframwaith sefydlu) yn creu sylfaen gadarn i weithwyr newydd i'w helpu i ddatblygu eu harferion a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac ar draws y sectorau hynny. Mae hefyd yn darparu dealltwriaeth glir o'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd y mae angen eu gweld i sicrhau bod gweithwyr newydd yn ddiogel ac yn gymwys i ymarfer, ar y cam hwn o'u datblygiad...

… Mae cynnwys y fframwaith sefydlu diwygiedig yn adlewyrchu 'cynnwys craidd' y cymwysterau newydd. Bydd hyn yn creu cyfnod sefydlu cadarn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cyn iddynt ddechrau ar eu cymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer neu gymhwysedd alwedigaethol. Bydd hyn hefyd yn tawelu meddwl gweithwyr eu bod yn derbyn yr addysgu a'r gefnogaeth briodol yn ystod eu cyfnod cyntaf o gyflogaeth, a gellir manteisio ar hyn wrth gyflawni'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt yn eu gwaith. Mae cynnwys craidd y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol newydd yn adlewyrchu safonau sefydlu a chymwyseddau craidd GIG Cymru, y mae'n rhaid i weithwyr eu cwblhau yn ystod eu pythefnos cyntaf a'u 6 mis cyntaf o gyflogaeth.

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Cyflwyniad a chanllawiau:
https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/AWIFHSC-Intro-and-Guidance-Cymraeg-JULY18.pdf

Strwythur y cymhwyster

Mae gan y cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** dri llwybr gwahanol:



Mae cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd yn cynnig cyfle i ddysgwyr gwblhau un llwybr yn canolbwyntio naill ai ar Oedolion neu ar Blant a Phobl Ifanc, neu lwybr ar y cyd sy'n ymdrin â'r ddau drywydd.

Rhaid i chi gwblhau'r holl asesiadau yn llwyddiannus er mwyn cyflawni'ch cymhwyster

Mae pob llwybr yn cynnwys nifer o unedau allweddol. Dim ond yr unedau sydd wedi'u cynnwys yn y llwybr sy'n berthnasol i'ch cyflogaeth neu, os nad ydych mewn cyflogaeth, i'r rhaglen astudio rydych chi'n ymgymryd â hi y byddwch chi'n eu cwblhau:

Llwybr Oedolion (5 uned):

Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)

Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)

Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol

Uned 006: Diogelu unigolion

Uned 007: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Llwybr Plant a Phobl Ifanc (5 uned):

Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)

Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)

Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol

Uned 006: Diogelu unigolion

Uned 007: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Mae oren yn dynodi bod yr unedau'n ymddangos ym mhob un o'r tri chymhwyster

Mae glas yn dynodi bod yr unedau yn rhan o'r Llwybr Oedolion a'r Llwybr Cyfun Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc

Dim ond yn y Llwybr Plant a Phobl ifanc a'r Llwybr Cyfun Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc y mae gwyrdd yn ymddangos.

Llwybr Cyfun Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc (7 uned):

Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)

Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)

Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)

Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)

Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol

Uned 006: Diogelu unigolion

Uned 007: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Pam oes gan rai o'r unedau yr un teitlau neu deitlau tebyg?

Mae strwythur a llwybrau'r cymhwyster **Level 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn adlewyrchu'r meysydd allweddol o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Bydd mwyafrif y dysgwyr yn gweithio naill ai gydag oedolion NEU blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n cynnig gwasanaethau i'r ddau, felly mae'n bwysig bod dysgwyr sy'n gweithio gyda'r mathau hyn o sefydliadau yn ennill ystod ehangach o wybodaeth a dealltwriaeth.

Yn ogystal, bydd rhai dysgwyr yn dechrau eu gyrfaoedd yn gweithio mewn gwasanaethau oedolion ac yna gallant symud i wasanaethau plant a phobl ifanc, neu i'r gwrthwyneb, felly mae'n bwysig bod y cyfle hwn i symud ymlaen yn cael ei gefnogi o fewn fframwaith y cymwysterau newydd. Mae'n hanfodol bod pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn derbyn cyfnod sefydlu cadarn, felly roedd yn synhwyrol sicrhau bod dilyniant gyrfa ar draws darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y cymhwyster Craidd gan ei fod wedi'i gysylltu mor agos â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF). Rydym wedi cyflawni hyn trwy gynnwys cymysgedd o unedau cyd-destunol ac unedau cyffredin fel y dangosir isod:


Llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc - pob uned wedi'u cwblhau
Unedau Cyd-destunol:
Unedau sy'n gyffredin ar gyfer pob un o'r 3 llwybr:
Llwybr Oedolion:
Llwybr Plant a Phobl Ifanc:
Yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol sy'n berthnasol wrth weithio gydag oedolion, e.e. deddfwriaeth allweddol; mathau o drawsnewidiadau a digwyddiadau bywyd; mathau o ofal personol a gwendidau iechyd; atal cwympiadau.
Yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol sy'n berthnasol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, e.e. deddfwriaeth allweddol; datblygiad y plentyn; mathau gwahanol o chwarae a'u manteision; deddfwriaeth a pholisi.
Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)
Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)
Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)
Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)
Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
Uned 006: Diogelu unigolion
Uned 007: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol
Yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol sy'n fwy perthnasol wrth weithio gydag oedolion a phlant a phobl ifanc.

Beth yw uned?

Mae'r holl wybodaeth a dealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u trefnu mewn unedau - ychydig fel penodau mewn llyfr. Dangosir cynllun yr uned a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn isod ac rydym wedi nodi rhai agweddau ac iaith allweddol y byddwch yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â hwy wrth i chi symud ymlaen trwy'ch taith ddysgu ac asesu.

Rhif yr Uned

Lefel yr Uned

Nod/crynodeb Uned: Crynodeb ar lefel uchel o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau o gynnwys yr uned y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am fathau o osodiadau y mae'r uned yn ymwneud â nhw.

Deilliant Dysgu (DD): Mae angen rhan ar wahân i nodi'r hyn i'w ddysgu, sy'n berthnasol i nod yr uned.



Uned 001 Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)

Lefel:	2
ODA:	100
Nod:	Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o'r ffordd mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion.
Trosolwg o'r uned:	Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn cynyddu gwybodaeth am sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion. Bydd y dysgwyr yn deall yr angen i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r ffordd y mae dulliau gweithredu person ganolog a seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y ffordd mae cymryd risgiau mewn modd priodol yn cefnogi llesiant, llais, dewis a rheolaeth. Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru, wrth gefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r ffordd y gall cyf nodau o newid a thrawsnewid effeithio ar unigolion. Byddan nhw'n cynyddu dealltwriaeth o sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion o fewn ffiniau proffesiynol a'r dulliau gweithredu sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys y ffordd y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd y dysgwyr effeithio ar eu hagwedd a'u hymddygiad tuag at eraill.
Math o asesiad:	Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu:

Bydd y dysgwr yn:

1 Deall sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer unigolion

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

1.1 Egwyddorion a gwerthoedd Deddf Gwasanaethau Cymd eithasol a Llesiant (Cymru) 2014
1.2 Sut mae'r egwyddorion yn sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth
1.3 **Codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol**, gan gynnwys i bwy maen nhw'n gymwys a sut maen nhw'n gallu cael eu defnyddio
1.4 Sut mae'r **codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol** yn sail i egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth

19

Teitl yr Uned

ODA: Nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

Trosolwg o'r uned: Beth sydd dan sylw yn yr uned. Bydd hyd yr adran hon yn amrywio o uned i uned. Dim ond ym manylebau'r cymwysterau Craidd y caiff ei chynnwys.

Meini prawf asesu (MPA): Mae angen eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau i fodloni deilliant dysgu penodol.

Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm - pam hynny?

Ym mhob uned byddwch yn sylwi bod rhai geiriau a datganiadau mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried y rhain mewn ffordd benodol neu mae angen defnyddio diffiniad neu ystyr benodol. Ar ddiwedd pob uned, rydym wedi darparu arweiniad pellach sy'n ymwneud â'r geiriau neu'r datganiadau hyn. Bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain er mwyn arwain eu darpariaeth o addysgu, dysgu ac asesu. Gellir gweld y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer Uned 001 isod. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi edrych ar y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer yr holl unedau yn y cymhwyster hwn, sydd i'w gael yn y yn Llawlyfr y Cymhwyster.



Uned 001: Canllawiau cyflwyno

Mae **cyfranogiad gweithredol** yn ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal neu gefnogaeth eu hunain yn hytrach na bod yn dderbynwyr goddefol. Mae cyfranogiad gweithredol yn ystyr ied hawl pob unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pherthnasoedd bywyd pob dydd mor annibynnol â phosibl.

Gwneir **penderfyniad budd pennaf** os nad oes gan rywun y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau cyfreithiol, gofal iechyd, llesiant nac aria nnol drosto ei hun. Mae'n un o egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Dim ond ar ôl asesu nad oes gan yr unigolyn y galluedd y gellir gwneud y penderfyniad. Dylid dilyn egwyddorion a chodau ymarfer llym er mwyn cynnal yr asesiad fel y nodir yn y Ddeddf G alluedd Meddyliol.

Dylai **codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol** gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Preswyl Plant sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol i gynnwys

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lle siant (Cymru) 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiynau a Phrotocolau cysylltiedig fel, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1992, Datganiad hawliau pobl hŷn yng Nghymru (2014);
- Deddf Iechyd Meddwl (1989), Cod Ymarfer Cymru (2008) a'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig;
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid;
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; M esur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau. Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013)

Mae **cynlluniau personol** yn nodi sut y bydd gofal unigolyn yn cael ei ddarparu. Maen nhw'n seiliedig ar wybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chymorth a byddan nhw'n cwmpasu dymuniadau, dyheadau ac anghenion gofal a chymorth personol yr unigolyn.

Bydd cynlluniau personol yn darparu'r canlynol:

- Gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am y gofal a'r cymorth cytûn a'r modd y bydd y rhain yn cael eu darparu
- Canllaw clir ac adeiladol i staff ar yr unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni
- Sail ar gyfer adolygiad parhaus
- Ffordd i unigolion, eu cynrychiolwyr a staff fesur cynnydd a ph'un a yw eu canlyniadau personol wedi'u cyflawni

Mae **dulliau gweithredu cadarnhaol** yn seiliedig ar egwyddorion gofal person ganolog:

- Dod i adnabod unigolyn
- Parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir a deall:
  - Ei hoff bethau a'i gas bethau
  - Ei sgiliau a'i alluoedd
  - Yr hyn sy'n well ganddo o ran dull cyfathrebu a strwythurau cymorth
- Deall effaith ei amgylchedd arno a defnyddio hyn i nodi ffyrdd o gynorthwyo pobl yn gyson ym mhob agw edd ar y gofal maen nhw'n ei gael.

Mae'n hanfodol meithrin perthnasoedd da, a dylid defnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol drwy'r amser. Maen nhw'n hanfodol pan fydd rhywun dan bwysau; yn ofidus; ag ofn; yn orbryderus neu'n ddig ac mewn perygl o ymddwyn mewn ffordd sy'n heriol i'w ddiogelwch ei hun a / neu ddiogelwch eraill.

Mae dulliau gweithredu cadarnhaol yn cynnwys gweithio gydag unigolyn a'i systemau cymorth er mwyn:

- Ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae;
- Lle bo modd, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac ymyrryd ar gam cynnar er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd yn y lle cyntaf;
- Deall beth sydd angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r unigolyn i reoli gofid a dicter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio unrhyw gyfyngiadau.

Dewisiadau a chefndir – y cymysgedd unigryw o brofiad unigolyn, a'i hanes, diwylliant, credoau, dewisiadau, teulu, perthnasoedd, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned

Mae **arferion cyfyngol** yn ystod eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maen nhw am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydyn nhw am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng , neu os yw rhywun yn mynd i niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol.

Byddai **digwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd** yn cynnwys newidiadau pwysig ym mywyd unigolyn, yn gadarnhaol ac yn negyddol. I unigolion â rhai cyflyrau, gall fod newidiadau i'w trefn ac amharu arni; i eraill gall fod yn gychwyn cyflwr dirywiol fel colli'r synhwyrau neu ddementia; i eraill gallan nhw fod mewn argyfwng.

Gallai **trawsnewidiadau** gynnwys pobl yn symud i mewn neu allan o'r ddarpariaeth gwasanaeth, genedigaethau, marwolaethau, priodas, cyflogaeth, ymddiswyddo, ymddeol, pontio rhwng blynyddoedd mewn ysgol neu goleg, pontio rhwng sefydliadau addysg, newidiadau corfforol fel y glasoed, dod yn oedolyn, dod yn ofalwr.

Byddai **arferion annerbyniol** yn cynnwys:

- Cyswllt rhywiol ag unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- Achosi niwed corfforol neu anaf i unigolion
- Gwneud sylwadau, ystumiau neu awgrymiadau sarhaus neu ymosodol
- Ceisio cael gwybodaeth am hanes pe rsonol lle nad yw'n angenrheidiol nac yn berthnasol
- Gwylio unigolyn yn dadwisgo pan nad yw'n angenrheidiol
- Rhannu gwybodaeth bersonol neu breifat amdanoch chi lle nad yw'n angenrheidiol
- Cyffwrdd, cofleidio ac anwesu amhriodol
- Cuddio gwybodaeth am unigo lion oddi wrth gydweithwyr, er enghraifft, peidio â chwblhau cofnodion, cynllwynio mewn gweithredoedd troseddol

- Derbyn rhoddion a lletygarwch yn gyfnewid am driniaeth well
- Rhannu sibrydion neu achlust am unigolyn neu eraill sy'n agos iddo
- Camddefnyddio arian neu eiddo unigolyn
- Annog unigolion i ddod yn ddibynnol neu hyderus er budd y gweithiwr ei hun
- Cynnig breintiau arbennig i 'hoff unigolion', er enghraifft treulio gormod o amser gyda rhywun, dod yn rhy agos, neu ddefnyddio dylanwad er mwyn bod o fudd i un unigolyn yn fwy nag eraill
- Darparu mathau o ofal na fyddan nhw'n cyflawni'r canlyniad a gynllu niwyd
- Darparu cyngor neu gwnsela arbenigol lle nad yw'r gweithiwr yn gymwysedig i wneud hyn
- Methu â darparu gofal a chymorth cytûn i unigolyn, neu ei wrthod, er enghraifft, oherwydd teimladau negyddol tuag at unigolyn
- Ceisio gwthio eich credoau crefyddo l, moesol neu wleidyddol eich hun ar unigolyn
- Methu â hybu parch nac urddas
- Unrhyw arferion sy'n cael eu gwahardd yn benodol mewn deddfwriaeth, rheoliadau statudol, safonau a chanllawiau perthnasol.

Gallai **achosion sylfaenol** gynnwys:

- Poen cronig neu a cíwt
- Haint neu boen corfforol arall
- Colli'r synhwyrau
- Anaf i'r ymennydd neu gyflwr niwrolegol arall
- Anawsterau cyfathrebu
- Amgylchedd
- Ofn a gorbryder
- Anhapusrwydd
- Diflastod
- Unigrwydd
- Anghenion sydd heb eu bodloni
- Gofynion
- Newid
- Trawsnewidiadau
- Digwyddiadau arwyddocaol diweddar fel marwolaeth aelod o'r teulu
- Digwyddiadau neu brofiadau blaenorol
- Camdriniaeth neu drawma
- Bwlio
- Gofal sy'n rheoli gormod
- Cael eich anwybyddu

Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt?

Mae pob un o'r unedau yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y'i dangosir uchod, cyflwynir y rhain yn y Deilliannau Dysgu a'r Meini Prawf Asesu. Darperir trosolwg o bob uned yn y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd isod:

UNED 001: EGWYDDORION A GWERTHOEDD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (OEDOLION)

UNED 002: EGWYDDORION A GWERTHOEDD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (PLANT A PHOBL IFANC)

Nod yr Uned:

Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o'r ffordd mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion/plant a phobl ifanc.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion/ plant a phobl ifanc
- yr angen i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- sut mae dulliau gweithredu person/plant-ganolog a seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y ffordd mae cymryd risgiau priodol yn cefnogi llesiant, llais, dewis a rheolaeth
- bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol
- rôl iaith a diwylliant Cymraeg, wrth gefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol
- sut y gall cyfnodau o newid a thrawsnewid effeithio ar oedolion/plant a phobl ifanc
- sut i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion/plant a phobl ifanc o fewn ffiniau proffesiynol
- ddulliau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys sut y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd dysgwyr eu hunain effeithio ar agwedd ac ymddygiad tuag at eraill.

UNED 003: IECHYD A LLESIANT (OEDOLION)

Nod yr Uned: Meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant oedolion.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- y ffactorau a allai effeithio ar iechyd a llesiant oedolion
- y cysylltiadau rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl da, a sut y gall ffactorau gwahanol, fel gweithgarwch corfforol a hunaniaeth, effeithio ar y rhain
- bwysigrwydd sicrhau gofal personol priodol i unigolion, gan gynnwys gofal mannau pwyso, gofal y geg, gofal traed a gofal ymataliaeth, a ffyrdd o gyflawni hyn
- bwysigrwydd maeth a hydradu, gan gynnwys canllawiau'r llywodraeth
- gyfrifoldebau, deddfwriaeth a chanllawiau allweddol a'u pwysigrwydd wrth roi meddyginiaeth.

UNED 004: IECHYD A LLESIANT (PLANT A PHOBL IFANC)

Nod yr Uned: Meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- gyfnodau datblygiad plant, effaith amgylcheddau gwahanol a rôl chwarae
- bwysigrwydd sicrhau gofal personol priodol i blant a phobl ifanc, a ffyrdd o gyflawni hyn
- bwysigrwydd maeth a hydradu, gan gynnwys canllawiau'r llywodraeth
- gyfrifoldebau, deddfwriaeth a chanllawiau allweddol a'u pwysigrwydd wrth roi meddyginiaeth.

UNED 005: YMARFER PROFFESIYNOL FEL GWEITHIWR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Nod yr Uned: Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o rôl, cyfrifoldebau, atebolrwyddau a safonau proffesiynol gweithiwr gofal plant blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag eraill ac fel rhan o dîm.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- eich rôl a'ch cyfrifoldebau, gan gynnwys dyletswydd gofal, atebolrwydd a safonau o ymddygiad proffesiynol
- godau ymddygiad, proffesiynoldeb, polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys cyfrinachedd
- gyfyngiadau eich rôl a'ch cyfrifoldebau a phryd i geisio cymorth ychwanegol i ddelio â sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch rôl neu achosion o wrthdaro a chyfyng gyngor
- weithio mewn partneriaeth, a phwysigrwydd gwaith tîm a gwaith amlasiantaethol effeithiol, a ffyrdd o gyflawni hyn
- sut i drin, storio a chofnodi gwybodaeth gan ddilyn deddfwriaeth a chodau ymddygiad
- bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus a myfyrio er mwyn gwella ymarfer.

UNED 006: DIOGELU UNIGOLION

Nod yr Uned: Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o bwrpas deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, gweithdrefnau a chodau ymddygiad ac ymarfer mewn perthynas â diogelu unigolion.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- y termau 'diogelu' a 'chategorïau', arwyddion a symptomau o gamdriniaeth ac esgeulustod
- y ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad mewn perthynas â diogelu
- rolau gwahanol asiantaethau a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod mewn achosion lle mae cam-drin yn cael ei nodi
- eich cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gan gynnwys rôl eiriolaeth, perthnasoedd priodol ac arferion person-ganolog/plentyn-ganolog
- ffyrdd o ymateb a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod i'w dilyn, gan gynnwys dealltwriaeth o ‘chwythu'r chwiban’ a ffiniau cyfrinachedd.

UNED 007: IECHYD A DIOGELWCH MEWN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Nod yr Uned: Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o sut i fodloni gofynion deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith.

Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a / neu ddealltwriaeth o:

- sut mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn effeithio ar ymarfer dyddiol, eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hunain a rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr
- y mathau o ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon iechyd a diogelwch a fyddai'n gallu digwydd yn y gweithle/lleoliad
- sut y defnyddir asesiad risg i gefnogi iechyd a diogelwch
- gyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â chynnal, cofnodi a dilyn asesiadau risg
- bwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau iechyd a diogelwch a'u cofnodi
- ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch tân, symud a chario, rheoli heintiau, diogelwch bwyd, gwaredu gwastraff a diogelwch
- arferion da a gweithdrefnau perthnasol gan ystyried diogelwch
- arwyddion o straen ac amgylchiadau a allai achosi straen
- y camau y gellir eu cymryd i leihau a rheoli straen, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael.

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn?

Er mwyn ennill y cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol**: **Craidd** bydd angen i chi:

1. weithio'n agos gyda'ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr**
2. fod yn barod i ddysgu am a phrofi pethau newydd sy'n gysylltiedig â gweithio gydag oedolion neu blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed neu mewn angen
3. baratoi ar gyfer asesiadau a'u cwblhau - mae rhagor o wybodaeth am asesu ar dudalen 22 o'r canllaw hwn.

Y bobl y byddwch yn debygol o fod â chysylltiad â nhw:

Beth yw tiwtor/athro? Gall eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle ddyrannu tiwtor/athro i chi. Mae'n annhebygol y byddant yn gweithio gyda chi yn unig, er bod hyn yn digwydd yn achlysurol. Mae tiwtor/athro yn rhywun a fydd yn eich cefnogi a'ch arwain ac a fydd yn eich helpu i ddysgu am yr holl bethau pwysig y mae'n rhaid i chi eu gwybod i weithio'n ddiogel gydag oedolion neu blant a phobl ifanc ac i ddiwallu eu hanghenion. Bydd eich tiwtor/athro yn defnyddio adnoddau dysgu a thechnegau addysgu sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer asesiad.

Beth yw aseswr? Aseswr yw rhywun sy'n alwedigaethol gymwys, sy'n golygu bod ganddo brofiad ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar. Gall eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle ddyrannu aseswr i chi. Fel arfer byddant yn gweithio gyda mwy nag un dysgwr, ond fel rheol byddant yn asesu pob dysgwr yn unigol. Bydd eich aseswr yn eich cefnogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiad a byddant yn ymwneud â gwneud penderfyniadau asesu ynghylch pa mor dda rydych yn gwybod ac yn deall y wybodaeth ofynnol.

Beth yw mentor y gweithle? Efallai y caiff mentor y gweithle ei benodi i chi gan eich cyflogwr. Nid yw'n ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddynt rôl bwysig o ran dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor y gweithle yn eich helpu i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn y gallwch ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn berthnasol ym myd gwaith. Efallai y byddant hefyd yn eich helpu i nodi a gwneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd dysgu sy'n digwydd pan fyddwch 'yn y gwaith'.

BYDDWCH HEFYD YN DOD I GYSYLLTIAD Â PHOBL ALLWEDDOL ERAILL WRTH I CHI WEITHIO TUAG AT ENNILL EICH CYMWYSTERAU, GAN GYNNWYS Y DARPARWR SICRHAU ANSAWDD MEWNOL A PHAN FYDDWCH WEDI CWBLHAU'CH HOLL ASESIADAU EFALLAI Y CEWCH GYFLE I GWRDD Â'R DARPARWR SICRHAU ANSAWDD ALLANOL.

Beth yw Darparwr Sicrhau Ansawdd Mewnol *(IQA)*?

Bydd *IQA* yn cael ei nodi gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle. Eu prif swyddogaeth yw rheoli tîm o aseswyr er mwyn cynnal cyfanrwydd y rhaglen neu'r cymhwyster sy'n cael ei gyflenwi. Maent yn cyflawni hyn trwy sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu gweithredu a bod tiwtoriaid/athrawon/aseswyr yn dehongli, deall a gweithredu safonau a gofynion y cymwysterau yn gywir, yn deg ac yn gyson. Bydd ganddynt ddiddordeb mewn deall sut y cawsoch eich cefnogi trwy'r broses o ennill eich cymhwyster ac felly gallent drefnu siarad â chi cyn i chi orffen eich rhaglen astudio.

Beth yw Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol *(EQA)*?

Dyrennir *EQA* gan y **Corff Dyfarnu** ac mae'n gweithio ag ysgolion, colegau a darparwyr yn y gweithle. Trwy ddefnyddio proses fonitro maent yn sicrhau bod y broses ddysgu ac asesu o'r ansawdd uchaf ar waith. Fel rhan o'u rôl, gall *EQA* weithio'n agos iawn gydag *IQA* a bydd hefyd yn cysylltu â thiwtoriaid/athrawon/aseswyr/mentoriaid gweithle ac yn ystod gweithgareddau monitro gallent ofyn am gael siarad â dysgwyr unigol. Mae ganddynt ddiddordeb i glywed am brofiad y dysgwr ac ansawdd y cymorth rydych wedi'i dderbyn ac felly maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i benderfynu a oes angen help a chyngor ychwanegol ar yr ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle.

Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Mae'r broses asesu ar gyfer y cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. Eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.
2. Eich gallu i roi eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol ar waith mewn sefyllfaoedd perthnasol.

Bydd dau fath o asesiad: asesiad mewnol ac asesiad allanol, fel y manylir yn y tabl canlynol:

	CYMHWYSTER YN ÔL LLWYBR			ASESIAD SYDD EI ANGEN	
Uned	Llwybr Oedolion	Llwybr Plant a Phobl Ifanc	Llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc wedi'u cyfuno	Asesiad Mewnol – astudiaeth achos seiliedig ar senario	Asesiad Allanol – Cwestiynau Dewis Lluosog
Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)	✓		✓	✓	✓
Uned 002: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)		✓	✓	✓	✓
Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)	✓		✓	✓	✓
Uned 004: Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)		✓	✓	✓	✓
Uned 005: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol	✓	✓	✓	✓	✓
Uned 006: Diogelu unigolion	✓	✓	✓	✓	✓
Uned 007: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol	✓	✓	✓		✓

I gyflawni'r cymhwyster, rhaid i chi lwyddo yn yr asesiad mewnol ac allanol. Gellir cwblhau'r asesiadau mewn unrhyw drefn ond ni ddylid rhoi cynnig arnynt nes bod yr holl ddysgu angenrheidiol wedi'i gwblhau a nes y byddwch chi a'ch aseswr yn cytuno eich bod yn barod i gwblhau'r asesiad. Os ydych wedi'ch cyflogi, dylai eich cyflogwr / rheolwr hefyd fod yn rhan o'r penderfyniad hwn, lle bo hynny'n bosibl.

Asesiad ar gyfer y Llwybr Oedolion:

- Asesiad Mewnol 1a astudiaeth achos 1 – unedau 001 a 003
- Asesiad Mewnol 2a astudiaeth achos 2 – unedau 001 a 005
- Asesiad Mewnol 3a astudiaeth achos 3 – unedau 001 a 006
- Asesiad Allanol Cwestiynau Dewis Lluosog ar draws cynnwys pob uned (001/003/005/006/007)

Asesiad ar gyfer y Llwybr Plant a Phobl Ifanc:

- Asesiad Mewnol 1b astudiaeth achos 1 – unedau 002 a 004
- Asesiad Mewnol 2b astudiaeth achos 2 – unedau 002 a 005
- Asesiad Mewnol 3b astudiaeth achos 3 – unedau 001 a 006
- Asesiad Allanol Cwestiynau Dewis Lluosog ar draws cynnwys pob uned (002/004/005/006)

Asesiad ar gyfer y Llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc wedi'u cyfuno:

- Asesiad Mewnol 1a astudiaeth achos 1 – unedau 001 a 003
- Asesiad Mewnol 1b astudiaeth achos 1 – unedau 002 a 004
- Asesiad Mewnol NAILL AI: 2a astudiaeth achos 2 – unedau 001 a 005 NEU 2b astudiaeth achos 2 – unedau 002 a 005
- Asesiad Mewnol NAILL AI: 3a astudiaeth achos 3 – unedau 001 a 006 NEU 3b astudiaeth achos 3 – unedau 002 a 006
- Asesiad Allanol Cwestiynau Dewis Lluosog ar draws cynnwys pob uned (001/002/003/004/005/006/007)

Beth yw ystyr Asesiad Mewnol?

Mae hyn yn golygu, er bod yr asesiadau wedi'u hysgrifennu gan y Corff Dyfarnu, bydd eich tiwtor / athro / aseswr yn eu rhyddhau i chi pan fyddwch wedi cwblhau'r holl ddysgu gofynnol ac wedi dangos eich bod yn barod i roi cynnig ar yr asesiad. Os ydych wedi'ch cyflogi, dylai eich cyflogwr / rheolwr hefyd fod yn rhan o'r penderfyniad hwn.

Mae'r asesiad mewnol yn cynnwys 3 astudiaeth achos ar wahân wedi'u seilio ar senario ar gyfer y llwybrau Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc unigol. Os ydych chi'n cwblhau'r llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc wedi'u cyfuno, bydd gennych gyfanswm o 4 astudiaeth achos ar wahân wedi'u seilio ar senario i'w cwblhau. Bydd gan bob un o'r rhain gyfres o gwestiynau y bydd angen i chi eu hateb. Gellir cwblhau'r senarios yn unigol neu gyda'i gilydd - bydd nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y broses hon, ond dylech drafod eich dewisiadau gyda'ch tiwtor / athro / aseswr fel y gellir cofnodi hyn. Bydd angen cynnal yr asesiad mewn amgylchedd addas. Mae'r diagram canlynol yn dangos y broses asesu fewnol.

Lle priodol sy'n dawel ac yn sicrhau mai dim ond eich gwaith eich hun y gellir ei gyflwyno yw amodau rheoledig.

Cwblhawyd addysgu, dysgu ac asesu ffurfiannol

Astudiaethau achos yn seiliedig ar senario sengl neu luosog a ryddhawyd i chi yn ôl canolfan, gan gytuno ar ddyddiad ac amser i'r asesiad terfynol ddod i ben

Gallwch chi fynd â'r senario i ffwrdd o'r ganolfan am 2 wythnos

Yn ystod cyfnod o 2 wythnos byddwch yn cyflawni gwaith adolygu sy'n seiliedig ar gynnwys y senario a chewch chi ysgrifennu 2 dudalen A4 o nodiadau

Ar y dyddiad a'r amser y cytunwyd arno byddwch yn dychwelyd i'r ganolfan i gwblhau cwestiynau sy'n ymwneud â'r sen-ario - mae gan bob senario gwestiynau penodol - tua 9-10 ym mhob un

Bydd gennych 60 munud i gwblhau pob cyfres o gwestiynau o dan amodau arholiad

Ar ddiwedd y 60 munud byddwch yn cyflwyno'r papur cwestiynau sy'n cynnwys eich atebion, eich nodiadau a'r senario. Caiff y rhain eu marcio yn y ganolfan a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu gyda chi mewn oddeutu 2 wythnos

Byddwch yn cael defnyddio'ch 2 dudalen A4 o nodiadau i'ch cefnogi yn ystod yr asesiad.

Bydd eich tiwtor / athro / aseswr yn marcio neu'n 'asesu' y gwaith ar ôl i chi gwblhau'r asesiadau. Byddan nhw'n derbyn gradd Llwyddo neu Fethu. Mae eich tiwtor/athro/aseswr wedi'i hyfforddi i farcio gwaith mewn ffordd benodol a byddant yn dilyn cyfarwyddyd a ddarparwyd gan y Corff Dyfarnu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn deg ac yn ddibynadwy. Fe gaiff y broses hon ei gwirio gan y Darparwr Sicrhau Ansawdd Mewnol a chan y Darparwr Sicrhau Ansawdd Allanol.

Beth yw ystyr Asesiad Allanol?

Mae hyn yn golygu bod ***y Corff Dyfarnu*** wedi ysgrifennu'r cwestiynau ar gyfer y prawf, a byddant yn marcio'ch ymateb ac yn cyhoeddi'ch canlyniadau. Rhaid i'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd priodol, yn ogystal ag offer a chyfarpar priodol fel y gallwch chi gyflawni'r prawf heb darfu, ac fel y gallant fod yn sicr eich bod wedi cwblhau'r prawf ar eich pen eich hun.

Cyhoeddir y canlyniadau bron ar unwaith os cwblhewch eich prawf ar y sgrin, ac o fewn 20 diwrnod gwaith os dewiswch gwblhau fersiwn bapur.

Beth yw cynnwys y prawf?

Mae'r prawf yn bapur cwestiynau dewis lluosog sydd wedi'i ddatblygu gan y ***Corff Dyfarnu***. Bydd y cwestiynau'n gysylltiedig â chynnwys yr unedau o fewn y cymhwyster a'r llwybr rydych chi'n ei gwblhau. Byddwch yn gallu dewis a hoffech sefyll eich prawf ar y sgrin neu ar bapur. Bydd y profion yn derbyn gradd Llwyddo neu radd Methu, a rhaid i chi lwyddo yn y prawf er mwyn derbyn y cymhwyster.

Faint o gwestiynau sydd yn y prawf?

Bydd 45 cwestiwn yn y llwybr Oedolion neu'r llwybr Plant a Phobl Ifanc.

Bydd 65 cwestiwn yn y llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc wedi'u cyfuno.

Faint o amser sydd gennyf i gwblhau'r prawf?

Mae hyd y prawf yn wahanol gan ddibynnu ar y llwybr rydych chi'n ei gwblhau:

LLWYBR OEDOLION

1 AWR 15 MUNUD

LLWYBR PLANT A PHOBL IFANC

1 AWR 15 MUNUD

LLWYBR OEDOLION A PHLANT A PHOBL IFANC WEDI'U CYFUNO

1 AWR 45 MUNUD

A allaf gael cymorth ychwanegol yn ystod fy asesiadau?

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl gofyn am gefnogaeth a / neu amser ychwanegol wrth sefyll y prawf. Bydd angen i chi ddiwallu rhai meini prawf a gall y broses gymryd peth amser i'w threfnu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted ag y gallwch fel y gallant roi gwybod i ni am eich anghenion. Nid yw pob cais am gymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad cywir.

Ailsefyll

Asesiadau mewnol - gallwch ailsefyll pob astudiaeth achos fwy nag unwaith.

Asesiad allanol - nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gallwch ailsefyll y prawf.

COFIWCH – Cyn cael eich asesu, mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod yn barod a bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu i nodi pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn. Trwy gydol y cyfnod dysgu, dylech fod wedi cael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag astudiaethau achos yn seiliedig ar senario a mathau o gwestiynau gwahanol:



Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau?

Dylech ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ar eich cymhwyster. Po gyntaf y byddwch yn dechrau arfer da ag astudio, po leiaf y straen y byddwch yn ei deimlo. Mae astudio llwyddiannus yn galw am sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond hefyd mae angen i chi fod yn realistig. Os ydych yn gweithio yn ogystal â mynychu'r ysgol neu'r coleg, neu os ydych yn cwblhau rhaglen yn y gweithle, fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio ar gyfer amser astudio ymlaen llaw. Byddwch yn falch eich bod yn astudio a gadewch i'ch ffrindiau a'ch teulu/gofalwyr wybod y bydd arnoch angen eu cefnogaeth ac y byddwch yn disgwyl honno.

Mae rhai pobl yn ei gael yn haws ac yn fwy effeithiol astudio peth cyntaf yn y bore. Mae'n well gan eraill astudio yn hwyrach yn y dydd. Ond waeth beth yw amser y dydd, mae astudio yn llawer haws ac yn fwy llwyddiannus os oes gennych le tawel a chysurus sy'n llachar ac yn agored i'r awyr ac sy'n cynnwys rhywle i ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael a fydd yn eich helpu i astudio:

LLYFRAU GWAITH SEFYDLU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol

FFUG ASTUDIAETHAU ACHOS

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adnoddau-fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan

FFUG GWESTIYNAU

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adnoddau-fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan

ADNODDAU DYSGU DIGIDOL

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o offer ac adnoddau a all eich helpu i astudio:

1. gall ysgrifennu â beiros lliwgar eich helpu i nodi geiriau neu ymadroddion allweddol wrth i chi adolygu
2. gall crynhoi'ch nodiadau eich helpu chi i drefnu'ch dysgu a lleihau ailadrodd
3. gweithio ag eraill mewn grwpiau bach - mae rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a phrofi eich gilydd yn wirioneddol werth chweil
4. cymerwch seibiannau rheolaidd - gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb egni i chi a helpu i sicrhau bod eich meddwl yn canolbwyntio

COFIWCH na allwch astudio yn dda os ydych wedi blino, dan ormod o straen neu ar frys. Cynllunio a phenderfyniad yw'r allwedd!

Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae cynnwys y cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** wedi cael ei lywio a'i ddylanwadu gan Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Anogir dysgwyr yn gryf i gwblhau'r cymhwyster craidd cyn, neu ar yr un pryd, â chymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill sy'n rhan o'r gyfres, gan y bydd hyn yn un o'r gofynion i ymarfer a bennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.



Mae cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn galluogi dilyniant di-dor i'r cymwysterau canlynol, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ddilyniant gyrfa mewn darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig ledled Cymru.

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i gyfoethogi ac ehangu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gawsoch wrth gwblhau cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd**. Byddwch yn dechrau datblygu a dod yn gymwys yn y sgiliau allweddol sydd eu hangen i weithio'n uniongyrchol gydag oedolion a allai fod angen cymorth ac sy'n manteisio ar wasanaethau gan gynnwys gofal i oedolion, gofal cartref, cymorth gofal iechyd clinigol, darpariaeth dementia neu ddarpariaeth anabledd dysgu.

Rhaid i chi fod yn gweithio mewn rôl Lefel 2 er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn. Ar gyfer rhai rolau, bydd yn rhan o'r gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (oedolion)

Cymhwyster seiliedig ar ymarfer yw hwn sy'n asesu gwybodaeth a chymhwysedd dysgwyr i ymarfer mewn cyflogaeth. Mae'n rhoi cyfle i gyfoethogi gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio cynnwys gorfodol ac unedau dewisol. Bydd o ddiddordeb i ddysgwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cartref, gofal preswyl a darpariaeth anabledd dysgu i oedolion. Rhaid i ddysgwyr fod mewn cyflogaeth er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn gan fod y cynnwys yn adlewyrchu'r lefel uwch o ymreolaeth ac atebolrwydd sy'n ofynnol ar Lefel 3, gan gynnwys datblygu agweddau ar botensial arweinyddiaeth sy'n dod i'r amlwg.

Adlewyrchir y themâu canlynol yn y cynnwys:

- egwyddorion ac ymarfer
- diogelu
- iechyd a diogelwch
- iechyd a llesiant
- ymarfer proffesiynol.

Pan fydd wedi'i gwblhau, mae'n galluogi dysgwyr i arfer mwy o ymreolaeth a chyfrifoldeb fel Uwch Weithiwr Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol cymwysedig Lefel 3 lle canolbwyntir ar oedolion agored i niwed neu mewn angen.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel Uwch Weithiwr Gofal, os ydynt yn bodloni gofynion cofrestru ychwanegol. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (plant a phobl ifanc)

Cymhwyster seiliedig ar ymarfer yw hwn sy'n asesu gwybodaeth a chymhwysedd dysgwyr i ymarfer yn y gweithle. Mae'n cynnig y cyfle i feithrin gwybodaeth a sgiliau, gan ddefnyddio cynnwys gorfodol ac unedau dewisol mewn lleoliadau plant a phobl ifanc, fel gofal plant preswyl, canolfannau preswyl i deuluoedd/ofalwyr neu ofal maeth a lleoliadau gofal iechyd yn y gymuned.

Adlewyrchir y themâu canlynol yn y cynnwys:

- egwyddorion ac ymarfer
- iechyd a llesiant
- ymarfer proffesiynol
- diogelu
- iechyd a diogelwch
- amrywiol feysydd ymarfer megis gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr neu blant sy'n derbyn gofal.

Drwy gwblhau cymhwyster **Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (plant a phobl ifanc)** yn llwyddiannus gall dysgwyr weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol fel gweithiwr Lefel 3 cymwysedig gyda phlant a phobl ifanc.

Gall dysgwyr wneud cais i gofrestru gyda Gofal Iechyd Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol mewn gofal plant preswyl neu ofal cartref ar yr amod eu bod yn bodloni unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru

Bydd y cymhwyster hwn o ddiddordeb i ddysgwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cartref i oedolion, gofal preswyl a darpariaeth anabledd dysgu. Mae'n adeiladu ar ac yn ymgorffori'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn Lefel 2 ac mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio meysydd eraill o wybodaeth gysylltiedig. Rhaid i ddysgwyr fod mewn cyflogaeth er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn gan fod y cynnwys yn adlewyrchu'r lefel uwch o ymreolaeth ac atebolrwydd sy'n ofynnol ar Lefel 3, gan gynnwys datblygu agweddau ar botensial arweinyddiaeth sy'n dod i'r amlwg.

Gall dysgwyr wedyn wneud cais i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel uwch weithiwr gofal cymdeithasol, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol eraill.

Symud ymlaen at ddysgu pellach

Os nad ydych chi'n meddwl am gyflogaeth ar hyn o bryd a byddai'n well gennych barhau â'ch dysgu yn yr ysgol neu'r coleg, mae'r cymwysterau canlynol wedi'u cynllunio i adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych eisoes wedi'i hennill i'ch galluogi i symud ymlaen at astudio pellach a hyfforddiant proffesiynol gan gynnwys addysgu, nyrsio a gwaith cymdeithasol:

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau*

Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (ar gael mis Medi 2020)*

TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (ar gael mis Medi 2020)

*Yn y cymwysterau hyn disgwylir y bydd rhywfaint o ymgysylltu ystyrlon yn digwydd â chyflogwyr/y sector a allai gynnwys lleoliad gwaith gosod.

OEDDECH CHI'N GWYBOD....

Bydd y cymwysterau Lefel 3 a restrir uchod yn denu pwyntiau UCAS, a fydd yn wahanol o gymhwyster i gymhwyster. Mae prifysgolion yn rhydd i osod eu meini prawf mynediad eu hunain ar gyfer rhaglenni graddedig ac israddedig. Gall y rhain amrywio o brifysgol i brifysgol a gallant gynnwys gofyniad i ddal pynciau TGAU penodol hefyd, gan gynnwys mathemateg a Saesneg. Bydd prifysgolion hefyd yn ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr aeddfed. Yn yr achosion hyn, byddant yn ystyried pethau heblaw pwyntiau UCAS, megis profiad bywyd / gwaith ac ymrwymiad clir i ddysgu a'r sector.

Rydym wedi gweithio ag ystod o brifysgolion ledled Cymru a'r DU ehangach i sicrhau bod y cymwysterau Lefel 3 newydd yn cael eu cydnabod a'u derbyn ar gyfer mynediad i raglenni gradd a gradd sylfaen.

I gael mwy o wybodaeth am y gofynion i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, cyfeiriwch at wefan 'Gofal Cymdeithasol Cymru' https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau

Sut mae'r cymwysterau newydd hyn yn cefnogi fy nilyniant gyrfa y tu hwnt i Lefel 3?

Unwaith y byddwch mewn cyflogaeth, efallai y bydd cyfleoedd pellach i symud ymlaen ar ôl i chi ennill mwy o brofiad a hyder. Bydd y cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 canlynol yn eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i'ch cefnog i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau. Cyn symud ymlaen at Lefel 4, byddwch eisoes wedi ennill profiad sylweddol ar Lefel 3. Bydd y cymwysterau isod yn eich cefnogi i naill ai ganolbwyntio ar agwedd benodol ar ymarfer neu byddant yn eich helpu i ehangu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ofynnol i arwain a rheoli darpariaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig.

LEFEL 4 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL GYDAG ARBENIGEDD (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gyfoethogi ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ymwneud â maes ymarfer sydd â ffocws pendant. Byddwch yn gallu dewis pa faes y mae gennych ddiddordeb mwyaf ynddo, ond bydd yn rhaid i hyn fod yn berthnasol i'r math o wasanaethau rydych chi'n eu darparu. Mae'n rhaid i chi fod mewn cyflogaeth i gyflawni'r cymhwyster hwn.

LEFEL 4 PARATOI I ARWAIN A RHEOLI IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i roi mewnwelediad i ddamcaniaethau a modelau allweddol o arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster hwn cyn y gallwch symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 5 sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig.

LEFEL 5 ARWAIN A RHEOLI IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ar yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu ar Lefel 4 ac yn rhoi cyfle i'ch gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau gael eu hasesu. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, rhaid i chi fod yn gweithio ar Lefel 5 ac yn gallu dangos eich bod wedi dod yn arweinydd a rheolwr cymwys. Mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig mae'n ofynnol bod â chymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig. Mae cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gymhwyster cydnabyddedig at y diben hwn.

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach

Mae cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u cynllunio i alluogi dilyniant i rolau eraill yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ac i'r sector gofal plant.

Ar ôl i chi gwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** efallai y byddwch yn penderfynu yr hoffech weithio gyda phlant ifanc. Bydd y cymwysterau canlynol yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach:

- ***Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd***
- ***Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer***
- ***Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori***
- ***Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer***
- ***Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori*** (ar gael ym mis Medi 2020)
- ***Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc)*** (ar gael ym mis Medi 2020)
- ***Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd*** (ar gael ym mis Medi 2020)
- ***Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer*** (ar gael ym mis Medi 2020)
- ***Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant***(ar gael ym mis Medi 2020)

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster?

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i alinio â Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn fframwaith cynefino gwirfoddol i'r gweithle y'i bwriedir i'w ddefnyddio yng Nghymru yn unig. Mae cynnwys y cymhwyster hwn a Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynrychioli'r wybodaeth a ddealltwriaeth sylfaenol ar Lefel 2 sy'n hanfodol ar gyfer gweithio'n ddiogel gydag oedolion, neu blant a phobl ifanc, sydd mewn angen neu sy'n agored i niwed.

Rhagwelir y bydd mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau'r cymhwyster hwn ochr yn ochr ag un o'r cymwysterau cysylltiedig canlynol:

- ***Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)***
- ***Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***
- ***Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)***
- ***Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)***

Mae'r cymwysterau Lefel 2 uchod yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gydnabyddir gan reolyddion gweithlu a sefydliadau sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhai sy'n cynrychioli'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau Lefel 2 sydd eu hangen i weithio gydag oedolion, plant a phobl ifanc ledled y DU sy'n agored i niwed ac sydd mewn angen.

Cyllid

Gellir cyllido'r holl gymwysterau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yng Nghymru, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch darparwr hyfforddiant, coleg neu ysgol am gyfleoedd cyllido a allai weddu i'ch anghenion.

Sut ydw i'n hoffi dysgu - beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?

Mae dysgu yn broses unigol iawn ac felly mae'n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar sut y gallwch ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut y gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol fel eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth newydd yn hawdd pan fydd angen. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â pherfformio'n dda yn eich asesiadau - mae'r un mor bwysig eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth pan rydych yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac eraill. Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y byddwch chi'n eu hennill trwy gwblhau'r cymhwyster hwn fydd y wybodaeth graidd y bydd ei hangen arnoch i weithio'n effeithiol gyda phlant a diwallu eu hanghenion.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y mwyafrif o bobl hoff ffordd o ddysgu y gellir ei disgrifio'n fras mewn un neu ddwy o'r ffyrdd dilynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio

Dros y blynyddoedd, mae cryn nifer o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu i geisio ein helpu i nodi sut rydym yn dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar wahanol bobl i wneud dysgu'n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yw damcaniaeth ddysgu arbrofol Kolb (1984) a damcaniaeth Honey & Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.



Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithredu - teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.

Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Adeiladodd Honey a Mumford ar ddamcaniaeth Kolb sy'n awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull unigolyn o ddysgu yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan un neu ddau o'r rhain yn unig.



Pan gyflwynwyd y pwnc 'hoff' ddulliau dysgu gyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, roedd llawer yn credu bod unigolion yn dysgu mewn ffordd benodol yn unig a bod hyn yn gymharol ddigyfnewid. Mae meddwl modern ynghylch 'hoff' ddull dysgu yn nodi na ddylid meddwl am sut rydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth sy'n ddigyfnewid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych ddysgu yn ddull defnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych yn ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych yn teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych ynddo ac ati.

Os meddyliwch am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth, efallai y gwelwch fod eich hoff ymagwedd yn ffitio i un, neu ddau efallai, o'r categorïau dilynol:

DULL DYSGU	EFALLAI MAI DYMA'CH HOFF DDULL DYSGU OS:	RYDYCH YN:	MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO
GWEITHREDYDD	rydych yn hoffi dysgu trwy wneud	frwdfrydig; yn tueddu i weithredu yn gyntaf, ac ystyried yn nes ymlaen; yn y sefyllfa sydd ohoni	Cynhyrchu syniadau mewn grŵp, arbrofi ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau.
PRAGMATYDD	rydych yn hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut y gallent weithio yn y byd go iawn	tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus	Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol o'r hyn rydych yn ei ddysgu.
MYFYRIWR	rydych yn hoffi meddwl am yr hyn rydych yn ei ddysgu	hoffi rhoi cynnig ar bethau; byddwch yn gweithredu'n gyflym ac yn hyderus; gallwch fod yn ddiamynedd; datryswyr effeithiol o broblemau	Treulio amser yn darllen o amgylch pwnc, a gwylio eraill yn rhoi cynnig ar bethau.
DAMCANIAETHWR	rydych yn hoffi deall sut mae'r dysgu newydd yn cyd-fynd â'ch 'model gweithio' neu 'fframwaith' ac â damcaniaethau blaenorol	dda o ran addasu; yn hoffi dadansoddi er mwyn meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddylwyr rhesymegol	Modelau a damcaniaethau, â digon o wybodaeth gefndirol.

Os ydych yn meddwl am rai profiadau dysgu eraill yr ydych wedi'u cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol. Mae yna nifer o resymau pam y gallai hyn fod yn wir, er enghraifft roedd gennych fynediad at wahanol adnoddau, roeddech chi'n teimlo'n hyderus, neu roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Gall yr amgylchedd, sut rydych yn teimlo'n emosiynol a'ch profiadau o ddysgu yn y gorffennol oll ddylanwadu ar sut y gallwch drin dysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, a allai fod gennych ynglŷn â dechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich cefnogi i gyrchu cymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i nodi a deall yn well pa wahanol ddulliau dysgu sy'n gweithio orau i chi.